| GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG | |
|---|---|
| **51 - Rheoliadau Darpariaethau Cyffredin y Cronfeydd Strwythurol a'r Cronfeydd Buddsoddi Ewropeaidd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 29 Tachwedd 2018* | |
| **Sifftio** | |
| A fydd angen sifftio yn Senedd y DU? | Bydd |
| Gweithdrefn: | Negyddol arfaethedig |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Ty'r Cyffredin | 11 Rhagfyr 2017 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-deddfwriaeth Ty'r Arglwyddi | w/c 10 Rhagfyr 2018 |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | 18 Rhagfyr 2018 |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 45 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Nid yw'n ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Ddim yn hysbys |
| Y weithdrefn | Negyddol neu Gadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol | Ddim yn hysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Ddim yn hysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-deddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Ddim yn hysbys |

**Sylwadau**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 i'r Ddeddf.

Mae'r offeryn hwn yn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol, a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r UE. Mae'n ymdrin â chywiriadau sy'n dechnegol eu natur ac nad ydynt yn gwneud unrhyw newidiadau polisi sylweddol, yn hytrach mae cywiriadau yn addasu Rheoliadau'r UE a ddargedwir i ymgorffori termau newydd (y cytunwyd arnynt) i sicrhau y bydd rhaglenni Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) yn parhau i gael eu hariannu ar gyfer gweddill y rhaglen 2014 i 2020, os nad oes dim bargen.

Mae Cynghorwyr Cyfreithiol yn nodi nad yw datganiad Llywodraeth Cymru dyddiedig 4 Rhagfyr 2018 yn sôn bod yr offeryn hefyd yn diwygio darpariaethau sy'n caniatáu i raglenni a ariennir ar hyn o bryd gan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop barhau i gael arian os nad oes dim bargen.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn ystyried bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 y Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi nodi unrhyw reswm cyfreithiol dros ofyn am gynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.